



Canllawiau Cynllunio Ategol
Casglu Gwastraff a Chyfleusterau Storïo

Argraffiad Newydd Hydref 2016

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATEGOL
CASGLU GWASTRAFF A CHYFLEUSTERAU STORIO HYDREF 2016

Penodau		Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Polisi Cynllunio a Gwastraff	4
3	Cyflwyno Ceisiadau Cynllunio	5
4	Datblygiadau Preswyl	7
5	Datblygiadau Masnachol	12
6	Storfa Biniau a Manyleb Dylunio	14
7	Cael Mynediad i Gasglu Gwastraff	18
8	Ar ôl Cymeradwyo Cynllunio	19
Atodiadau		
1	Polisi Allweddol 2 (PA2) a Pholisi Gwastraff 2 (PA2) o'r Cynllun Datblygu Lleol	20
2	Enghreifftiau o Amodau Cynllunio	21
3	Manyleb Biniau	23
4	Storio Masnachol	26
5	Dimensiynau Cerbydau Casglu Gwastraff	27
6	Sylwadau ac Ymatebion i'r Ymgynghoriad	28

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Nodyn Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) yn ategu polisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDL) o ran darparu cyfleusterau rheoli gwastraff mewn datblygiadau newydd. Cafwyd CCA ei ganiatáu gan y Cyngor ar yr 20fed o Hydref 2016.
- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi defnydd Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) i nodi canllawiau manwl ar y ffordd y caiff polisiau cynllunio datblygu eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i'r CCA fod yn gyson â pholisiau cynllunio datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Mae CCA yn helpu i sicrhau bod rhai polisiau a chynigion yn cael eu deall yn well a'u rhoi ar waith yn fwy effeithiol. Nid oes ganddynt yr un statws â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd ond maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Nodir polisiau yn y CDL sy'n berthnasol i'r CCA hyn ym Mhennod 2
- 1.3 Dyma ganllaw o'r safonau **syfaenol** i gynllunwyr, penseiri, datblygwyr neu reolwyr eiddo, i gynorthwyo â chynllunio a dylunio storffeydd a chasgliadau gwastraff a chyfleusterau ailgylchu mewn datblygiadau domestig a masnachol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn unol â strategaethau rheoli gwastraff a threfniadau casglu'r Cyngor.
- 1.4 Drwy'r canllaw hwn, mae **datblygu**'n cynnwys unrhyw adeilad newydd neu wedi'i addasu, unrhyw ailddatblygu ac unrhyw newid defnydd neu addasu adeiladau mewn ffordd sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio.
- 1.5 Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â datblygwyr i weithredu canllawiau ar gasglu gwastraff a chyfleusterau storio. Fodd bynnag, lle nad oes storfa wastraff sy'n cyfateb i ofynion y canllaw hwn, neu â threfniadau eraill y cytunwyd arnynt, mae gan y cyngor amrywiaeth o bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth neu wrthod derbyn cynigion ar gasglu gwastraff gan ddatblygwyr.
- 1.6 Caiff gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor ei adolygu'n rheolaidd a dylai ymgeiswyr/asiantau gysylltu â ni i gael gwybod p'un ai a yw'r manylion sydd yn y ddogfen hon dal yn gyfredol.
- 1.7 Pan nad yw mater penodol wedi'i drafod, neu pan fo angen eglurhad, gallwch wneud ymholiadau i:

*Strategaeth Gwastraff
Gweithrediadau'r Ddinas
Depo Ffordd Lamby,
Tredelerch
CAERDYDD
CF3 2HP*

*Ffôn: 029 20717 500
Ffacs: 029 2036 3420*

E-bost: CynllunioRheoliGwastraff@caerdydd.gov.uk

2. Polisi Cynllunio a Gwastraff

- 2.1 Mae *Cyfarwyddeb ar Wastraff* yr Undeb Ewropeaidd wedi pennu nifer o dargedau ar gyfer gwastraff ac ailgylchu i aelod-wladwriaethau, sy'n cael eu cynllunio i sicrhau mwy o gynaliadwyedd i reoli gwastraff. Mae'r targedau'n cynnwys ailgylchu 65% o wastraff dinesig erbyn 2030.
- 2.2 Mewn ymateb i Gyfarwyddeb ar Wastraff yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi creu rhagor o dargedau ailgylchu yn nogfen bolisi *Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010)*. Mae'r targedau hyn yn orfodol ar awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r nod hirdymor o wneud Cymru'n genedl ddiwastraff erbyn 2050.
- 2.3 Yn sgîl y targedau hyn, crëwyd rhagor o ddogfennau polisi i sicrhau ein bod yn rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

- 2.4 Mae'r ddogfen PCC yn nodi polisiâu defnyddio tir Llywodraeth Cymru. Mae pethau i'w hystyried ynddi o ran darpariaethau gwastraff. Noda Paragraff 12.7.3:

"Dylid cynnwys gofod a chyfleusterau digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yn rhan o ddyluniad unrhyw ddatblygiad; a dylai datblygwyr wneud pob ymdrech i atal gwastraff yn ystod y camau dylunio, adeiladu a dymchwel. Dylid chwilio am bob cyfle i aildefnyddio deunyddiau a chynnwys cynhyrchion a ailgylchwyd wrth godi adeilad neu adeiledd newydd."

Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (TAN 21)

- 2.5 I ategu PCC, mae TAN 21 yn gweithredu ymhellach ddull cynaliadwy o reoli gwastraff. Noda Paragraff 2.1 (Saesneg yn unig):

"When considering development proposals for all types of waste management facilities, planning authorities should take into account their potential contribution to the objectives, principles and strategic waste assessments set out in Towards Zero Waste and the relevant waste sector plans and the relevant development plan for the area."

Cynllun Datblygu Lleol 2006-2026 (CDLI)

- 2.6 Lluniwyd y CCA hyn yn unol â'r CDLI diweddaraf a fabwysiadwyd yn 2016.
- 2.7 Mae'r CDLI a fabwysiadwyd yn cynnig y fframwaith statudol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghaerdydd dros gyfnod y Cynllun (2006-2026).
- 2.8 Mae Polisi Allweddol 12 (PA12) yn y CDLI yn amlinellu gofynion rheoli gwastraff yr holl ddatblygiadau newydd. Gweler **Atodiad 1** am ragor o fanylion.
- 2.9 Mae'r ddogfen hon hefyd yn ategu Polisi W2 o'r CDLI sy'n amlinellu'r gofyniad i gael darpariaeth gwastraff briodol ym mhob datblygiad newydd. Gweler **Atodiad 1** am ragor o fanylion.

3 Cyflwyno Ceisiadau Cynllunio

- 3.1 **Rhaid** i fanylion am leoliad, maint a threfniadau rheoli a chasglu gwastraff ac ailgylchu gael eu cyflwyno fel rhan o'r ceisiadau cynllunio canlynol:
- Pob cais llawn neu faterion a gadwyd yn ôl
 - Cynigion ar anheddau ychwanegol (gan gynnwys addasiadau fflatiau)
 - Cynigion i dai amlfeddiannaeth
 - Cynigion ar gyfer rhagor o ofod llawr masnachol
 - Ceisiadau newid defnydd
- 3.2 Dylai ardaloedd storio wedi'u hadleoli gael eu nodi ar gynlluniau safle fel bod modd cadarnhau eu bod yn bodloni gofynion Rheoli Gwastraff.
- 3.3 Dylai ceisiadau nodi'n glir:
- **Ôl-troed digonol** ar gyfer storfeydd **mewnol ac allanol** yr holl wastraff ac ailgylchu
 - **Lleoliad arfaethedig** storio gwastraff bwyd, ailgylchu a gwastraff gweddilliol (a gwastraff gardd yn ôl y gofyn)
 - Math a dyluniad **cyfleusterau bwyd, ailgylchu, gardd a gwastraff**.
 - Lleoliad **pwyt cyflwyno gwastraff ymyl y ffordd** (neu le arall y cytunwyd arno) i gasglu gwastraff
 - **Llwybrau mynediad** i gerbydau casglu (gan gynnwys symudiadau a thracio cerbydau), gweithredwyr, trigolion a'r staff
- 3.4 Os yw codi storfa biniau benodedig yn cael ei chynnig, dylid hefyd rhoi rhagor o fanylion am y gwaith adeiladu hwn. Gweler Pennod 5 am ragor o ganllawiau.

Rheoliadau Adeiladu

- 3.5 Mae gwaith adeiladu domestig a masnachol yn cynnwys codi datblygiadau newydd, estyniadau ac addasiadau i adeiladau yn ddarostyngedig i Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd). Mae Rheoliad H6 a'r Ddogfen Gymeradwy ategol i Ran H yn gwneud gofynion ar gyfer sicrhau cyfleusterau storio gwastraff solet a gwaredu gwastraff solet, ac mae'r rheoliadau hefyd yn cyfeirio at Storfa BS 5906:1980 a thrin gwastraff solet o adeiladau ar y safle.
- 3.6 Mae Pennod 6 yn cynnig gwybodaeth o ran dylunio a manylebau ardaloedd gwastraff.
- 3.7 Dylai dylunwyr a datblygwyr roi ystyriaeth i'r gofynion fel y'u hamlinellir; gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y Gwasanaethau Rheoli Adeiladu yng Nghyngor Dinas Caerdydd (www.Cardiff.gov.uk/buildingcontrol.htm ac e-bostio: rheoliadeiladu@caerdydd.gov.uk;) neu gan Adran Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol (LABC) www.labc.co.uk;

Amodau Cynllunio

- 3.8 Bydd Rheoli Datblygu'n ymgynghori ac yn ystyried barn Rheoli Gwastraff ar bob mathau o ddatblygiadau masnachol a phreswyl. Caiff Amodau Cynllunio eu gosod i sicrhau bod manylion storio a chasglu gwastraff boddhaol wedi dod i law a chael eu cytuno arnynt cyn i'r gwaith ddatblygu ddechrau. Ni fydd defnydd llesol datblygiad fel arfer yn cael ei

ddyfarnu nes bod y cyfleusterau a'r trefniadau rheoli gwastraff y cytunwyd arnynt yn cael eu rhoi ar waith. Gweler Atodiad 2 am enghreifftiau o Amodau Cynllunio gwastraff.

- 3.9 Dylai ymgeiswyr geisio cyflawni Amodau Cynllunio gwastraff ar y cyfle cyntaf posibl. Pan fydd problemau'n codi, bydd Rheoli Gwastraff yn rhagweithiol wrth gyflawni'r amod.
- 3.10 Pan fydd amodau penodol caniatâd cynllunio'n cael eu torri neu pan nad yw datblygiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, gwneir atgyfeiriad i Gorfodi Cynllunio.

Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle

- 3.11 Yn 2013, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Gynlluniau Rheoli Gwastraff safle (SWMP). Daethpwyd i'r casgliad y bydd projectau Adeiladu a Dymchwel yng Nghymru'n wirfoddol. Er eu bod yn wirfoddol fe'u hystyrir yn arfer da yn y diwydiant Adeiladu a Dymchwel ac fe'u cefnogir gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Y Strategaeth Gwastraff a Chynlluniau Rheoli

- 3.12 Cynigion defnydd cymysg, masnachol a manwerthu mawr (o 50 o fwy neu anheddau neu unrhyw ddatblygiad masnachol sy'n cynnwys mynediad i'r cyhoedd) yw rhai a ddylai gynnwys **Strategaeth Gwastraff a Chynllun Rheoli** gweithredol fel rhan o'r cais am ganiatâd cynllunio. Dylai gynnwys:
- Maint a mathau amcangyfrifedig y gwastraff a grëir gan y datblygiad
 - Maint a lleoliad y storfeydd gwastraff ac ailgylchu, a sut y caiff gwastraff ei ddosbarthu i'r cyfleusterau hyn.
 - Maint y cynwysyddion gwastraff
 - Unrhyw fan casglu ar wahân a gynigir, a'r dull o drosglwyddo gwastraff i'r lleoliad hwn

Rhwymedigaethau Cynllunio

- 3.13 I gael manylion am Rwymedigaethau Adran 106 ar wastraff i ddatblygiadau newydd, cyfeirier at y Canllawiau Cynllunio Ategol ar Rwymedigaethau Cynllunio (2016).

4. Datblygiadau Preswyl

- 4.1 Mae gan bob datblygiad preswyl hawl i gasgliadau gwastraff domestig gan y Cyngor, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion sylfaenol.
- 4.2 Mae'r wybodaeth ganlynol yn ganllaw i faint o wastraff a ddisgwylir o ddatblygiadau preswyl. Gall rhai datblygiadau amrywio o'r meintiau a ragwelir a dylai ymgeiswyr gysylltu â'r Cyngor i gael cyngor mwy penodol.
- 4.3 Rhaid i **bob** datblygiad preswyl gynnig digon o le storio i 4 ffrwd wastraff benodedig; ailgylchu, gardd, bwyd a gwastraff gweddilliol. Rhaid bod darpariaeth ar gyfer cyfanswm yr holl ffrydiau gwastraff a gynhyrchir dros gyfnod o 14 diwrnod. **Rhaid i'r storfa hon fod yn ar wahân o'r annedd a wasanaetha.** Nid yw'n dderbyniol i wastraff gael ei storio am gyfnod hir yn yr annedd.
- 4.4 I alluogi ac annog meddianwyr unedau preswyl newydd i ailgylchu eu gwastraff dylai darparwyr ddarparu digon o **storfeydd mewanol** fel arfer yn y gegin, i wahanu deunydd wedi'i ailgylchu o wastraff arall. Dylai fod gan bob annedd gynwysyddion storio mewanol gydag **o leiaf 60 litr o le** i gadw deunydd ailgylchu sych, gwastraff i'w gompostio a gwastraff cyffredinol a **lle i storio 7 litr** o wastraff bwyd.
- 4.5 Os lleolir datblygiadau preswyl newydd ar ffyrdd mynediad newydd, rhaid eu dylunio mewn modd fel y gallant gael eu defnyddio'n hawdd gan gerbydau casglu gwastraff. Cyfeirier at Bennod 6 i sicrhau mynediad digonol.
- 4.6 Mae ar hyn o bryd ddau ddull ar gyfer storio a chyflwyno gwastraff domestig i'w gasglu:
- Bagiau* - Yr holl wastraff i'w storio mewn bagiau pwrpasol (a gyflenwir gan y Cyngor) i'w casglu (ac eithrio'r cadid bwyd); ni ddarperir biniau i storio gwastraff cyffredinol neu wastraff gardd.
 - Biniau – Dyrennir bin gwastraff cyffredinol i'r datblygiad. Defnyddir bagiau ailgylchu o hyd.
- * Ond yn addas ar gyfer ailddatblygu, pan fo lle cyfyngedig i storio ac nad oes modd gosod biniau.
- 4.7 Mae'r dull storio gwastraff yn dibynnu ar y lleoliad. Ceidw'r Cyngor yr hawl i benderfynu ar y dull o gasglu gwastraff ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl.
- 4.8 **RHAID** i datblygiadau sy'n defnyddio y dull o gasglu bagiau, gynnig storfa gwastraff i storio bagiau gwastraff yn ddiogel rhwng casgliadau.
- 4.9 I gael manylion ar ba mor aml y cesglir gwastraff, ewch i wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk
- 4.10 I gael manylion llawn ar y fanyleb biniau, ar gyfer eiddo domestig, cyfeirier at Atodiad 3.

Tai

- 4.11 Y ddarpariaeth biniau i dai fydd:
- Bin olwynion du 140L **neu** fagiau (140L) ar gyfer gwastraff gweddilliol
 - Bin olwynion gwyrdd 240L **neu** sachau aml-dro ar gyfer gwastraff gardd
 - Cadi brown ymyl y ffordd 25L ar gyfer gwastraff bwyd

- Cadi cegin brown 7L ar gyfer gwastraff bwyd
- Bagiau gwyrdd ar gyfer gwastraff i'w ailgylchu

4.12 Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer tai â 6+ o drigolion. Caiff tai sy'n defnyddio dulliau casglu biniau finiau ychwanegol. Caiff tai sy'n defnyddio bagiau fagiau ychwanegol.

Nifer y preswylwyr	Ailgylchu	Cyffredinol	Gardd	Bwyd
1-5	Bagiau (140L)	1 x 140L	240L	1 x 25L
6-8	Bagiau (240L)	1 x 240L	240L	2 x 25L
9-10	Bagiau (380L)	1 x 240L a 1 x 140L	240L	3 x 25L
11+	Bagiau (480L)	2 x 240L	240L	3 x 25L

Tabl 1: Capasiti storio gwastraff tai amfeddiannaeth

4.13 Pan fo'n bosibl, dylai storfa biniau gael ei chodi i storio biniau i dai. Gweler Pennod 5 am ragor o ganllawiau.

Tai amfeddiannaeth

4.14 Dylid gwneud ystyriaeth ychwanegol i eiddo sy'n cael eu haddasu'n dai amfeddiannaeth. Bydd y ddarpariaeth biniau'n seiliedig ar faint o bobl sydd ym mhob uned (gweler Tabl 1).



4.15 Rhaid i ddatblygwyr anheddau dwysedd uchel, amfeddiannaeth o 5+ fflat gynnig storfa gwastraff benodedig neu ardal storio guddiedig ar gyfer biniau swmp. Rhaid i'r storfa biniau allu cynnal uchafswm gofynnol y cynwysyddion, yn seiliedig ar asesiad o faint o wastraff a ddisgwylir.

Tai a addasir yn fflatiau

4.16 O ran tai a addasir yn fflatiau, y dewis a ffeirir yw dyrannu biniau'n unigol. Dyrennir i bob fflat:

- Fin olwynion du 140L **neu** fagiau (140L) ar gyfer gwastraff cyffredinol
- Cadi brown ymyl y ffordd 25L ar gyfer gwastraff bwyd
- Bagiau gwyrdd ar gyfer ailgylchu

- 4.17 Mae hefyd opsiwn ar gyfer biniau ychwanegol sy'n cynnwys biniau swmp 660L neu 1100L neu finiau olwynion 240L llai. Mae Tabl 2 yn dangos darpariaeth biniau biniau olwynion llai neu fflatiau i'w haddasu, a dengys Tabl 2 ddarpariaeth bosibl biniau swmpus llai.

Nifer y fflatiau	Ailgylchu	Cyffredinol	Gardd	Bwyd
3	Amh	1 x 240L a 1 x 140L	240L	1 x 25L
4	Amh	2 x 240L	240L	2 x 25L
5	Amh	3 x 240L	240L	2 x 25L
6	Amh	3 x 240L a 1 x 140L	240L	240L
7	Amh	4 x 240L	240L	240L
8	Amh	4 x 240L a 1 x 140L	240L	240L
9	Amh	5 x 240L	240L	240L

Tabl 2: Darpariaeth biniau ar gyfer tai a addasir yn fflatiau

Fflatiau amlbrpas

- 4.18 Dylai datblygwyr gynnig rhywfaint o hyblygrwydd wrth storio gwastraff, yn benodol ar gyfer fflatiau pwrpasol, gan ystyried newidiadau posibl yn y dyfodol i ddull casglu gwastraff y Cyngor.
- 4.19 Ar gyfer datblygiadau mawr o ran fflatiau pwrpasol, cyfeirier at ofynion storio gwastraff Tabl 3. Mae'r cyfrifiadau ar gyfer ailgylchu a gwastraff cyffredinol yn seiliedig ar ddyraniad o 140L i bob fflat, gydag isafswm biniau.

Nifer y fflatiau (hyd at 3 ystafell wely)	Ailgylchu (L)	Cyffredinol (L)	Gardd* (L)	Bwyd** (L)	Ailddefnyddio / Storio Gwastraff Swmp
5	660	660	-	240	-
10	1100	1100	-	240	5m ²
15	2200	2200	-	240	5m ²
20	2200	2200	-	240	5m ²
25	3300	3300	-	480	5m ²
30	4400	4400	-	480	5m ²
35	4400	4400	-	480	5m ²
40	5500	5500	-	480	5m ²
45	6600	6600	-	720	10m ²
50	6600	6600	-	720	10m ²

Tabl 3: Capasiti storio gwastraff ac ailgylchu i ddatblygiadau mwy

*Ni chyflenwir gwastraff gardd dan y rhagdybiaeth nad oes gan fflatiau erddi/ardaloedd amwynder unigol. Os oes gan y datblygiad arfaethedig erddi unigol, mae modd darparu biniau mewn cynwysyddion 240L ar gais.

**Mae cynwysyddion gwastraff bwyd i fod yn gynnwysyddion olwynion 240L neu lai oherwydd y pwysau a'r goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithredwyr casgliadau.

- 4.20 Pan fo fflatiau'n rhai "clwstwr" (ystafelloedd gwely lluosog amlfeddiannaeth â chegin a rennir), mae'r gofynion storio'n seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely. Gweler Tabl 4.

Roedd y cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar y meintiau gwastraff disgwylidig canlynol yr wythnos i bob ystafell wely:

- 60 litr o wastraff cyffredinol
- 60 litr o wastraff wedi'i ailgylchu
- 7 litr o wastraff bwyd

Nifer yr ystafelloedd gwely	Ailgylchu (L)	Cyffredinol (L)	Gardd* (L)	Bwyd** (L)	Aildefnyddio / Storio Gwastraff Swmp
10	1100	1100	-	240	5m ²
20	2200	2200	-	240	5m ²
30	2200	2200	-	240	5m ²
40	3300	3300	-	480	5m ²
50	3300	3300	-	480	5m ²
60	4400	4400	-	480	10m ²
70	4400	4400	-	480	10m ²
80	5500	5500	-	720	10m ²
90	5500	5500	-	720	10m ²
100	6600	6600	-	720	10m ²

Tabl 4: Capasiti storio gwastraff ac ailgylchu i ddatblygiadau mwy o fflatiau stiwdio neu glwstwr

*Ni chyflenwir gwastraff gardd dan y rhagdybiaeth nad oes gan fflatiau erddi/ardaloedd amwynder unigol. Os oes gan y datblygiad arfaethedig erddi unigol, mae modd darparu biniau mewn cynwysyddion 240L ar gais.

**Mae cynwysyddion gwastraff bwyd i fod yn gynwysyddion olwynion 240L neu lai oherwydd y pwysau a'r goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithredwyr casgliadau.

4.21 Mae Cyngor Dinas Caerdydd wrthi'n gweithredu casgliad y codir amdano ar gyfer eitemau mawr, swmpus i eiddo domestig. Oherwydd targedau statudol, mae storfa dan do ar gyfer aildddefnyddio/aildddefnyddio **eitemau gwastraff swmpus bellach yn elfen ofynnol** mewn fflatiau pwrpasol. Ni ddylai'r ardal storio arfaethedig fod yn ardal benodedig, fel nad yw eitemau swmpus sy'n aros i gael eu casglu'n amharu â chasglu biniau eraill.



Blociau Fflatiau Uchel

4.22 Mewn blociau fflatiau uchel pan nad yw bob amser yn gyfleus i'r trigolion fynd â gwastraff i un storfa, neu lle nad oes modd canfod ardal storio gwastraff ddigon mawr, rhaid ystyried trefniadau amgen. Dylai'r datblygwr gysylltu â Rheoli Gwastraff ar y cyfle cyntaf posibl cyn cadarnhau trefniadau amgen.

4.23 Mae adeiladau uchel yn cyflwyno nifer o heriau i ddylunwyr o ran strategaethau rheoli gwastraff, ac o ran hyn argymhellwn fod y dylunydd / datblygwr yn manteisio ar y cyfle i

drafod cynigion ar gam cynnar â'r Tîm Rheoli Gwastraff, Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu.

Storfeydd Cymunedol

- 4.24 Ymhlith yr opsiynau ar gyfer storfeydd cymunedol mae storfeydd bychain ar bob llawr (y cesglir y gwastraff gan staff cynnal a chadw'r adeilad), neu storfeydd mawr a rennir ar y llawr gwaelod/islawr y mae'n rhaid i'r trigolion fynd â'u gwastraff/gwastraff ailgylchu i'r llawr gwaelod/islawr. Os caiff cynwysyddion eu symud gan lifft, rhaid bod y lifft yn ddigon mawr i allu cynnwys cynhwysydd ac aelod o staff yn ddiogel.
- 4.25 Lle cymerir cynwysyddion gwastraff i fan casglu (heblaw am ymyl y ffordd) gan drigolion neu staff, rhaid cael datganiad dull. Rhaid iddo ddisgrifio'r modd i gludo cynwysyddion i'r man casglu penodedig, a'r man mynediad a throi i gerbydau casglu gwastraff.
- 4.26 Os nad oes lle i'r biniau mewn storfa biniau gymunedol, mae modd talu am gasgliadau ychwanegol gan ddefnyddio contract gwastraff masnachol. Bydd hyn yn galluogi datblygiad i gael man storio llai, gan fod y casgliadau'n amlach. I gael rhagor o gyngor cysylltwch â Rheoli Gwastraff.

(Sylwer: Mae'n bosib na fydd gwasanaeth casglu domestig am ddim y Cyngor yn cyd-fynd â chontractwyr gwastraff masnachol eraill. Mae gwasanaeth gwastraff masnachol y Cyngor yn cyd-fynd ac mae modd ei ddefnyddio ar y cyd â'r gwasanaeth domestig).

Compostio

- 4.27 Dylid ystyried darparu cyfleusterau compostio mewn datblygiadau â gardd. Dylai compostio gartref ddigwydd mewn anheddau newydd pan fo digon o le yno. Mae modd prynu biniau compostio gartref gan Gyngor Dinas Caerdydd drwy ffonio Cysylltu â Chaerdydd ar **029 20872088**.

Ystyriaethau o ran cydraddoldeb

- 4.28 Dylai cydraddoldeb i drigolion fod yn ystyriaeth wrth ddynodi storfeydd gwastraff a chyfleusterau casglu ar ddatblygiadau preswyl newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn tai fforddiadwy, lle dylid dylunio tai i fod yn "gartrefi oes".
- 4.29 Mae trigolion hŷn neu anabl, ac na allant symud gwastraff o storfa biniau i'r man casglu (h.y. ymyl y ffordd), â hawl i ddefnyddio gwasanaeth Cymorth Gwastraff y Cyngor, sef pan fydd y criwiau casglu'n nôl gwastraff o ardal fwy addas. Er mwyn hwyluso'r gwasanaeth hwn, dylai datblygiadau gael eu dylunio â lle addas i storio gwastraff sydd o fewn 25m i'r man casglu a 10m o'r annedd.
- 4.30 O ran datblygiadau sydd â storfa biniau gymunedol â drysau, dylai fod ystyriaethau arbennig i drigolion sy'n cael trafferth symud neu sy'n wannach. Dylid hefyd ystyried handlenni drws addas a phwysau drysau addas.

5. Datblygiadau Masnachol

- 5.1 Yn ôl y gyfraith, mae gan pob eiddo diwydiannol a masnachol ddyletswydd gofal i sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli a'i waredu'n gywir.
- 5.2 Gall perchenogion neu ddatblygwyr datblygiadau/eiddo diwydiannol a masnachol sydd angen i Gyngor Dinas Caerdydd gasglu a gwaredu eu gwastraff ac ailgylchu gysylltu â'r adran gwasanaethau masnachol ar **02920 717501**.
- 5.3 Mae Tabl 5 yn dangos capasiti storio amcanol ystod o ddatblygiadau masnachol. Bydd y capasiti gwirioneddol yn amrywio yn unol ag union natur y gweithgareddau masnachol ac amllder casgliadau. Dylid caniatáu am o leiaf ddeuddydd o storfa gwastraff wrth gefn, yn fwy na'r maint rheolaidd a storir yno cyn ei gasglu.

Math o Safle	Capasiti Storfa
Swyddfeydd	2500L i bob 1000m ² o ofod llawr gros
Manwerthu	5000L i bob 1000m ² o ofod llawr gros
Safleoedd sy'n gweini bwyd	*500L i bob 20 man bwyta neu 600L i bob 100 pryd a weinir
Gwestai a Llety	35L yr ystafell / diwrnod neu **1500L i bob 20 man bwyta

Tabl 5: Capasiti Storio Gwastraff mewn Eiddo Masnachol

** mae rhai allfeydd bwyd fel bwyta bwyd cyflym a chludefwyd yn cynhyrchu llawer mwy o wastraff*

*** mae maint y gwastraff yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o westy a'r cyfleusterau a gynigir*

- 5.4 Bydd contractau masnachol yn cynnig ystod o drefniadau o ran amledd casglu gwastraff â chynwysyddion storio gwastraff amrywiol. Cysylltwch â'r contractwr masnachol a ffeirir i drafod trefniadau posibl cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio. Gweler Atodiad 4 am fanylion cynwysyddion a gynigir gan wasanaeth casglu gwastraff masnachol y Cyngor.
- 5.5 Dylid ystyried darparu peiriant cywasgu neu beiriant byrnu. Gall cywasgu gwastraff cyn ei gasglu leihau faint o storfa sydd ei angen, a pha mor aml sydd angen casglu gwastraff, yn sylweddol. Mae cywasgu hefyd yn ffordd ddiogel o ddal gwastraff. Ond nid yw Cyngor Dinas Caerdydd yn casglu gwastraff wedi'i gywasgu at ddibenion gweithredol a bydd angen gwneud trefniadau casglu eraill.
- 5.6 Mae neilltuo lle i ddeunydd i'w ailgylchu yn annog ailgylchu a gall leihau costau casglu i denantiaid masnachol.
- 5.7 Gweler Penodau 6 a 7 ar sicrhau bod cyfleusterau storio'n addas cyn cyflwyno ceisiadau.
- 5.8 Bydd angen i unedau Dosbarth A3 gyflenwi biniau sbwriel, er mwyn atal sbwriela a allai ddigwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r datblygiad. Rhaid i'r rheolwyr fod yn berchen ar y biniau sbwriel hyn a'u cynnal a'u cadw.

Gwastraff Peryglus

- 5.9 Dylai'r holl wastraff peryglus gael ei adnabod yn gywir, ei wahanu a'i storio ar wahân yn unol â chanllawiau gan Asiantaeth yr Amgylchedd a chontractwyr gwastraff peryglus arbenigol.
- 5.10 Ni ddylid cymysgu gwastraff peryglus â gwastraff cyffredinol, compostio neu ailgylchu.

Datblygiadau Defnydd Cymysg

- 5.11 Mewn datblygiad cymysg, rhaid gwahanu gwastraff i sicrhau nad yw gwastraff masnachol yn mynd i'r ffrwd gwastraff domestig. Rhaid nodi dwy ardal storio gwastraff ar gynlluniau safle sy'n manylu ar y gwahaniad hwn.

6. Dyluniad a manyleb ardal gwastraff

6.1 Nodir y gofynion storio gwastraff yn *Rheoliadau Adeiladu 2010* (Adran H6).

6.2 **Ni chaniateir** storio gwastraff ar y briffordd neu'r droedffordd gyhoeddus.

Lleoliad Ardaloedd Storio Biniau Allanol

Dylai ardaloedd storio biniau allanol:	
<i>Fod o fewn 25m i'r pwynt casglu a 30m o'r annedd</i>	<i>Bod cyn belled i ffwrdd o ffenestr neu awyrywyr, a than orchudd neu gysgod</i>
<i>Bod yn hygyrch (Gweler pennod 7)</i>	<i>Heb gael eu lleoli mewn modd sy'n amharu ar fynediad cerddwyr neu gerbydau i adeilad.</i>
<i>Bod wrth ochr neu gefn yr eiddo. Fel dewis olaf dylid eu gosod ar yr ochr flaen.</i>	<i>Lle y bo'n bosibl, dylai fod sgrîn rhag eu gweld yn allanol drwy blannu, ffensys, waliau ac adeileddau priodol eraill.</i>
<i>Cael eu lleoli mewn ffordd sy'n golygu y bydd unrhyw niwsans posibl o ollwng, arogl, sŵn ac effaith weledol yn cael ei atal.</i>	<i>Cael eu hintegreiddio mewn modd sensitif â'r hyn o'u cwmpas ac adlewyrchu dyluniad, deunydd a phensaerniaeth yr adeilad.</i>
<i>Bod â llwybrau mynediad sydd 1.2m o led at ddefnydd trigolion mewn cadair olwyn.</i>	

6.3 Rhaid i'r holl ddatblygiadau gynnig ardal storio benodedig ar gyfer cynhwysyddion gwastraff ac ailgylchu a rhaid eu dangos ar y cynlluniau safle a gyflwynwyd. Dylai pob ardal storio ac ardal gaeedig fod o fewn ffiniau'r eiddo a bod yn weladwy ac yn hygyrch i ddefnyddwyr/trigolion i annog y defnydd ohonynt.

6.4 Ni chaiff yr holl wastraff ac ailgylchu ei osod ond ym miniau/bagiau penodedig Cyngor Dinas Caerdydd, a'u storio mewn storfa wastraff bwrpasol neu mewn system cynhwysyddion swmp yn ffiniau'r safle.

6.5 Dylai dyluniad y storfa a'r ardal gaeedig ystyried pa mor hawdd yw cael mynediad atynt, a chasglu cynhwysyddion, ac unrhyw ofynion cynnal a chadw. Dylai'r holl storfeydd gael eu codi'n unol â *BS 5906 (1980)* a chydymffurfio â *Rheoliadau Adeiladu 2010*, Rhan H6.


Gofynion ardaloedd caeedig biniau swmp:	
<i>Dylai drysau dwbl agor am allan, gydag agoriad sydd o leiaf 1.5m a chyfleuster i ddal drysau wrth gasglu gwastraff.</i>	<i>Caniatáu'r cynhwysydd i gael ei symud yn llorweddol heb symud cynhwysydd arall.</i>
<i>Caniatáu i gaeed y bin gael ei agor yn llawn</i>	<i>Bod sgrîn guddio 1.8m os nad oes angen to.</i>
<i>Bod o leiaf 2m o uchder</i>	<i>Rhaid i bob drws llithro fod yn 2.4m</i>
<i>Rhaid peidio ag amharu ar welededd cerddwyr, gyrwyr neu feicwyr</i>	<i>Ni ddylai drysau mynediad agor mewn i/dros y briffordd gyhoeddus.</i>
<i>Dylai arwynebau fod yn llyfn ac yn anhydraid fel bod modd eu glanhau a'u draenio.</i>	<i>Rhaid gosod goleuadau artiffisial i sicrhau bod modd codi a chario'r biniau'n ddiogel.</i>

6.6 Rhaid cynnal a chadw'r ardal storio i safon dderbyniol. Gallai methu â gwneud hynny arwain at beidio â chasglu gwastraff.

Maint Ardaloedd Caeedig

- 6.7 Bydd maint yr ardal gaeedig yn dibynnu ar faint o wastraff y disgwylir iddo ddod o'r safle, maint y cynhwysyddion a pha mor aml y caiff gwastraff ei gasglu.
- 6.8 Dylai gofynion ôl-droed pob preswylfa neu safle ganiatáu gofod digonol o amgylch pob bin (yn ddefnyddol 200mm rhwng ac o amgylch pob cynhwysydd neu 500mm os oes yn rhaid i drigolion godi caead cynhwysydd). Nid yw hyn ond yn berthnasol i finiau 660L neu 1100L.

Isod mae ôl-troed enghreifftiol.



- 6.9 Dylai unrhyw ddrws fod o leiaf 500mm yn lletach na'r bin.

Enghreifftiau o storfeydd gwastraff a rennir:



CORRECT: level access and wide access for collections. All bins are accessible with room for manoeuvring. Natural ventilation.



INCORRECT: no formal storage area, with insufficient bins which could potentially lead to waste escaping. No level access for residents.

Storfeydd gwastraff unigol:



CYWIR: biniau wedi'u cuddio yn unol â dyluniad yr adeiladau.



ANGHYWIR: tai teras heb ardal flaen sy'n arwain at osod biniau ar y palmant

Arwyddion a Labelu

DIM EITEMAU SWMPUS
Ni chaiff biniau sydd wedi'u llenwi â gwastraff swmpus eu gwagio


NO BULKY WASTE
Bins blocked by bulky waste cannot be emptied

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â Rheoli Gwastraff, cysylltwch â C2C ar **029 2087 2088**
For any queries regarding Waste Management contact **C2C** on **029 2087 2087**

recycle for Cardiff
aigylchu dros Gaerdydd
www.wasteawarenesswales.org.uk

CARDIFF
GAERDYDD

- 6.10 Rhaid i ardaloedd storio gwastraff gael eu dynodi'n glir at y diben hwn yn unig a chael eu labelu'n glir, ar waliau, drysau a lloriau fel y bo'n briodol a hefyd ar y cynhwysydd perthnasol ei hun. Os yw'r cyfleuster yn un a rennir, dylai hefyd ddynodi pa eiddo sydd â hawl i'w ddefnyddio.
- 6.11 Os taw'r Cyngor sy'n casglu biniau a chynhwysyddion, rhaid iddynt gael eu nodi'n unigol gyda chodau bar a labeli priodol eraill lle mae'r Cyngor yn nodi hynny.



Darpariaethau Golchi

- 6.12 Pan fo gwastraff gwlyb yn cael ei gynhyrchu (gan gynnwys bwyd), dylai fod gan yr ardal gaeedig naill ai lawr concriid neu bafin graddedig â dalfa llaid sy'n gysylltiedig â'r garthffos. Dylid gosod tap dŵr oer naill ai yn, neu ger, yr ardal gaeedig, fel bod modd glanhau'r cynhwysydd gwastraff.

7. Mynediad Casglu

Mynediad i Gerbydau Casglu

- 7.1 Dylai'r gwaith o adeiladu'r holl ffyrdd mynediad ar gyfer cerbydau casglu gwastraff fod yn unol â *Bwletin Dylunio 32: Ffyrdd Preswyl a Llwybrau Cerdded a Llefydd, Strydoedd Symudiadau: Canllaw Ategol i Fwletin Dylunio 32*, yr Adran Drafnidiaeth, a ategir gan *Safonau dylunio Priffyrdd Sirol i Ddatblygiadau Preswyl* y cyngor.
